# 24. CAEL BENTHYG BEDD

**Darllen:** Ioan 19: 31-42;
Marc 15: 42-47

Daeth y dydd i ben i bawb wrth i'r tri condemnedig farw. Ond, yn gyntaf, rhaid cael gwared â'r cyrff aflan hyn cyn i u'yl sanctaidd y Pasg ddechrau. Cafodd y milwyr orchymyn i dorri coesau'r tri dyn oedd wedi eu dienyddio a gwnaethpwyd felly i'r ddau ar y tu allan er mwyn eu lladd, ond pan ddaeth y milwyr at Iesu, gwelwyd ei fod eisoes wedi marw. Trywanodd un o'r milwyr ef yn ei ystlys er mwyn gwneud yn siu'r. Yn ddiamau, yr oedd yn farw.

Yn y cyfamser, aeth Joseff o Arimathea, at Pilat a gofyn am ganiatâd i gladdu corff Iesu o Nasareth yn ei fedd ei hun. Aelod o'r Sanhedrin oedd Joseff, ond mae'n bur debyg na chafodd ei alw i'r cyfarfod y noson gynt. Dangosodd ddewrder mawr wrth fynd at Pilat. Golygai hynny sefyll o blaid troseddwr a oedd newydd gael ei ddienyddio. Byddai'r arweinwyr Iddewig yn gandryll wrth weld bod un ohonynt wedi dangos tosturi a mwy na thosturi i'r Galilead. Rhoddwyd corff Iesu mewn bedd newydd mewn gardd ac aeth ei ffrindiau i ffwrdd i alaru drosto ac am eu gobeithion coll.

Cyrhaeddodd amser rhyddhau'r milwyr o'u cyfrifoldebau. Brysiodd aelodau'r dorf adref, o'r archoffeiriad at y person mwyaf di-nod, i orffen y paratoadau olaf ar gyfer cadw'r Pasg, fel crefyddwyr da. Erbyn hyn, roedd gwteri'r Deml yn rhedeg yn goch gyda gwaed yr ww'n a laddwyd ar gyfer cadw'r Pasg. Ni sylweddolodd neb o'r dorf iddynt sefyll gydol y dydd yn dystion o'r Bugail Da yn rhoi ei einioes drostynt fel Oen Duw yn cymryd ymaith bechodau'r byd.

'*O'i gael ar ddull dyn, fe'i darostyngodd ei hun,*
*gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes.*' (*Philipiaid 2: 8)*

**Gweddi:**
*Diolch a fo i ti, O Arglwydd Iesu Grist,*
*am yr holl boenau a'r gwaradwyddiadau creulon a ddioddefaist drosom ni;*
*am yr holl fendithion lu a enillaist inni.*
*O sanctaidd Iesu, drugarocaf Iachawdwr, Gyfaill a Brawd,*

*pâr inni dy adnabod yn gliriach, dy garu'n anwylach,*
*a'th ddilyn yn ffyddlonach. Amen.*
*(Risiart o Gaerfuddai)*